**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 932 (W.122)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn y Cwricwlwm Sylfaenol ar gyfer Cymru (Diwygio) 2003

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae adran 101(1) o Ddeddf Addysg 2002 (y Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol i'r cwricwlwm ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru gynnwys cwricwlwm sylfaenol sy'n cwmpasu addysg grefyddol, y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer Cymru ac addysg rhyw. Mae is-adran (3) yn galluogi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru wneud Gorchymyn sy'n diwygio is-adran (1) drwy ychwanegu gofynion pellach.

Mae'r Gorchymyn hwn, sydd wedi'i wneud o dan is-adran (3), yn ychwanegu dau ofyniad newydd at y cwricwlwm sylfaenol. Mae'r cyntaf, sydd i fod yn gymwys o 1 Medi 2003, yn ei gwneud yn ofynnol i'r cwricwlwm sylfaenol gynnwys darpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol i ddisgyblion cofrestredig o oedran ysgol gorfodol. Mae'r ail, sydd i fod yn gymwys o 1 Medi 2004, yn ei gwneud yn ofynnol i'r cwricwlwm gynnwys darpariaeth ar gyfer addysg gysylltiedig â gwaith i ddisgyblion sydd yng nghyfnod allweddol pedwar (disgyblion 14-16 oed yn fras).

Wrth addysgu plant mewn addysg bersonol a chymdeithasol ac addysg gysylltiedig â gwaith mae'n rhaid rhoi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol - gweler adran 100(8) o'r Ddeddf. Bydd y Cynulliad yn cyhoeddi canllawiau yng Nghylchlythyr cccc 13/2003, Cynulliad Cenedlaethol Cymru “Addysg Bersonal a Chymdeithasol ac Addysg Gysylltiedig â Gwaith yn y Cyricwlwm Sylfaenol”. Gellir cael copïau o Is-adran Safonau a Pherfformiad y Cynulliad a gellir eu gweld ar dysgu.cymru.gov.uk.

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 No. 932 (W.122)

# EDUCATION, WALES

## The Basic Curriculum for Wales (Amendment) Order 2003

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

Section 101(1) of the Education Act 2002 (the Act) requires the curriculum for every maintained school in Wales to include a basic curriculum comprising religious education, the National Curriculum for Wales and sex education. Subsection (3) enables the National Assembly for Wales to make an Order amending subsection (1) by adding further requirements.

This Order, which is made under subsection (3), adds two new requirements to the basic curriculum. The first, which is to apply from 1 September 2003, requires the basic curriculum to include provision for personal and social education for registered pupils of compulsory school age. The second, which it to apply from 1 September 2004, requires that curriculum to include provision for work-related education for pupils who are in the fourth key stage (broadly pupils aged 14 - 16).

In teaching personal and social education and work-related education regard must be had to any guidance issued by the National Assembly - see section 100(8) of the Act. Guidance will be published by the Assembly in National Assembly for Wales Circular NAFWC 13/2003, “Personal and Social Education and Work-Related Education in the Basic Curriculum”.Copies are available from the Assembly's Standards and Performance Division, and may be accessed at learning.wales.gov.uk.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 932 (W.122)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn y Cwricwlwm Sylfaenol ar gyfer Cymru (Diwygio) 2003

*Wedi'i wneud* *26 Mawrth 2003*

*Yn dod i rym* *fel y darparwyd yn erthygl 1*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol trwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 101(3)(a) o Ddeddf Addysg 2002(**a**).

**Enw a chychwyn**

**1**.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Cwricwlwm Sylfaenol ar gyfer Cymru (Diwygio) 2003.

(2) Mae'r Erthygl hon ac Erthygl 2(1) a (2), o'r Gorchymyn hwn yn dod i rym ar 1 Medi 2003.

(3) Mae Erthygl 2(3) yn dod i rym ar 1 Medi 2004.

**Diwygio Adran 101(1) o Ddeddf Addysg 2002**

**2**.-(1) Caiff Adran 101(1) o Ddeddf Addysg 2002 ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl paragraff (b) mewnosodir -

"(ba) provision for personal and social education for all registered pupils at the school who are of compulsory school age, ".

(3) Ar ôl paragraff (ba) (a fewnosodir yn unol â pharagraff (2)) mewnosodir -

"(bb) provision for work-related education for all registered pupils at the school during the fourth key stage,".

(a) 2002 p.32.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 No. 932 (W.122)

# EDUCATION, WALES

## The Basic Curriculum for Wales (Amendment) Order 2003

*Made* *26th March 2003*

*Coming into force* *as provided in article 1*

The National Assembly for Wales makes the following Order in exercise of the powers conferred on it by section 101(3)(a) of the Education Act 2002(**a**).

**Name and commencement**

**1**.-(1) This Order is called the Basic Curriculum for Wales (Amendment) Order 2003.

(2) This Article and Article 2(1) and (2) of this Order come into force on 1 September 2003.

(3) Article 2(3) comes into force on 1 September 2004.

**Amendment of Section 101(1) of the Education Act 2002**

**2**.-(1) Section 101(1) of the Education Act 2002 is amended as follows.

(2) After paragraph (b) insert -

"(ba) provision for personal and social education for all registered pupils at the school who are of compulsory school age, ".

(3) After paragraph (ba) (inserted by paragraph (2)) insert -

"(bb) provision for work-related education for all registered pupils at the school during the fourth key stage, ".

(a) 2002 c. 32.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**a**)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**)

26 Mawrth 2003

26th March 2003

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the Assembly

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 932 (W.122)

# ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn y Cwricwlwm Sylfaenol ar gyfer Cymru (Diwygio) 2003

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 No. 932 (W.122)

# EDUCATION, WALES

The Basic Curriculum for Wales (Amendment) Order 2003

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2003

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2003

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090737-X

9 780110 907376

£1.75

W54/05/03 ON